# JONES, JOHN ('Myrddin Fardd '; 1836 - 1921), llenor, hynafiaethydd, a chasglwr hen lythyrau a llawysgrifau



**Enw:** John Jones
**Ffugenw:** Myrddin Fardd
**Dyddiad geni:** 1836
**Dyddiad marw:** 1921
**Priod:** Ann Jones (née Jones)
**Plentyn:** Owen Gough Jones
**Rhiant:** Ann Jones
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor, hynafiaethydd, a chasglwr hen lythyrau a llawysgrifau
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** William Rowlands

Ganwyd mewn tyddyn o'r enw Tan-y-ffordd, ym mhlwyf Llangian, Ll n, Sir Gaernarfon, mab John ac Ann Owen. Bu idynt bump o blant, tair merch, a dau fab, sef Owen Jones ('Manoethwy') a John Jones ('Myrddin Fardd'). Priododd Ann Jones, o ardal yr Ynys, Eifionydd, a mab iddynt oedd y cerddor Owen Gough Jones a fu'n organydd yn un o eglwysi Birmingham. Derbyniodd ' Myrddin Fardd ' ei addysg elfennol yn ysgoldy Foel-gron, Mynytho, ac wedyn prentisiwyd ef yn of yng ngefail Plas-hen, Llanystumdwy. Yna bu'n gweithio fel gof yn chwareli Sir Gaernarfon a Meirionnydd am gyfnod, ac wedyn yng ngefail y Pandy, Chwilog, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Ym more ei oes ymddiddorai mewn barddoniaeth, ac yn 1872 enillodd £5 a thlws am gywydd coffa i David Williams, Castell Deudraeth, yn eisteddfod Eryri. Yn 1861 cynigiodd am y gadair yn eisteddfod genedlaethol Conwy, ond gwobrwywyd ' Gwilym Cowlyd,' a ' Myrddin ' yn ail, am awdl ' Mynyddoedd Eryri.' Yn eisteddfod genedlaethol Caernarfon 1877 enillodd wobr am ei lyfr *Enwogion Sir Gaernarfon*, a gyhoeddwyd yn 1922.

Yr oedd yn chwilotwr manwl; chwiliodd lawer o gofrestrau plwyf a cherddodd gannoedd o filltiroedd i fynwentydd ac eglwysi yn ei ymchwil am gofnodion cerrig-beddau. Ymwelai hefyd â llyfrgelloedd fel Peniarth i gopïo llawysgrifau a chronicïau gwahanol ardaloedd, a throsglwyddodd lawer o'r copiau hyn i'r prifathro J. H. Davies, Aberystwyth, ac Edward Breese, Porthmadog. Y mae llawer o'i ysgriflyfrau a chasgliadau o'i lythyrau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Gwnaeth lawer o waith i gynorthwyo ysgolheigion a llenorion Cymraeg yn niwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif.

Ysgrifennodd lawer o erthyglau gwerthfawr i *Brython* (Tremadog), 1858-63; *Golud yr Oes*, 1866, etc.; *Yr Haul*, 1866-76; *Y Traethodydd*, 1885-90; *Llais Rhyddid*; *Cymru (O.M.E.)*; *Llenor (O.M.E.)*; *Wales (O.M.E.)*.

Cyhoeddodd y llyfrau a ganlyn, gan mwyaf ar ei gost ei hun: (1) *Golygawd o Ben Carreg yr Ymbill*, 1858; (2) *Awdl Mynyddoedd Eryri*, 1862; (3) *Caniadau Ieuan Lleyn*, 1878; (4) *Adgof Uwch Anghof*, 1883; (5) *Gwaith Owain Gruffydd*, 1895; (6) *Cofiant Dewi Wyn*, 1902; (7) *Gleanings from God's Acre*, 1903; (8) *Cynfeirdd Lleyn*, 1905; (9) *Gwerin Eiriau Sir*

*Gaernarfon*, 1907; (10) *Llen Gwerin Sir Gaernarfon*, 1908; (11) *Gwaith Owain Lleyn*, 1909; (12) *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon*, 1913; ac wedi ei farw yn 1922 cyhoeddwyd *Enwogion Sir Gaernarfon*.

Yn niwedd ei oes, fel gwerthfawrogiad o'i gyfraniad mawr i lenyddiaeth Cymru, rhoddwyd iddo bensiwn y brenin. Bu farw yn Chwilog 27 Gorffennaf 1921 yn 85 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Chwilog.

## Awdur

**William Rowlands**

## Ffynonellau


*Y Geninen*, 1922, 196-8

'Cybi,' *John Jones (Myrddin Fardd) 1837-1921*

*Llawysgrifau Myrddin Fardd yng Nghasgliad J. H. Davies yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* yn Ll.G.C. (casgliad J. H. Davies)

gwybodaeth gan Mr. Robert Owen


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Jones

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 77974708

Wikidata: Q6948163

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu